# Cofnodion Fforwm Rheoli Tir Cymru

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Rheoli Tir Cymru |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod MS Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 17 Mawrth 2025 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones (Cadeirydd), aelod o Fwrdd CNC<br>Huwel Manley, CNC<br>Mary Lewis, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Elen G. Richards, CNC<br>Sarah Hetherington, CNC<br>Gemma Haines, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>Elaine Heckley, Cydffederasiwn Diwydiannau Coedwigoedd (Confor)<br>Hedd Pugh, NFU Cymru<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>John Browne, CNC<br>Tim Kirk, Confor<br>Angharad Davies, CFfI Cymru<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Marc Williams, CNC<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Catherine Osborne, Llywodraeth Cymru |
| **Unigolion eraill yn bresennol:** | Neil Harrison, CNC<br>Julie Boswell, CNC<br>Chris R. Thomas, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Ruth Jenkins, CNC (swydd newydd)<br>Matthew Walters, Llywodraeth Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys Jones (cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

## Eitem 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu, a materion sy'n codi

3. Unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu, ac y cytunwyd arnynt yn ffurfiol gan yr aelodau, byddant yn cael eu cyfieithu ac wedyn eu cyhoeddi ar wefan CNC. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2024 a'u cymeradwyo fel cofnodion cywir.

4. Adolygodd y grŵp y camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd, a chafwyd y diweddariad ar lafar.

## Eitem 3. Diweddariad i aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru

5. Soniodd yr Athro Rhys Jones am rai newidiadau sydd ar ddod i gyfarfodydd ac aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae CNC wedi penderfynu gohirio cyfarfodydd misol Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol (am y tro) ac integreiddio ei aelodaeth i brif grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Anfonwyd llythyr at aelodau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn eu hysbysu am y penderfyniad hwn. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn osgoi dyblygu gwaith. Ar gyfer y dyfodol, bydd y materion sy'n ymwneud â llygredd amaethyddol yn cael eu trafod ym mhrif gyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru, a byddwn yn ystyried p'un a fydd y materion yn cael eu trafod fel eitemau sefydlog ar yr agenda yntau drwy gynnal cyfarfod â thema benodol. Cydnabu Rhys waith pwysig is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a chyfraniadau'r grŵp. Awgrymodd Rhys y gellid ailgynnull is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol (yn ôl yr angen), ond y byddai'n debygol o fabwysiadu strwythur gorchwyl a gorffen. Bydd cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn y penderfyniad hwn – bydd cylch gorchwyl drafft yn cael ei ddosbarthu i aelodau cyn cyfarfod nesaf y fforwm.

6. Cydnabu Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod yr aelodaeth yn gorgyffwrdd, ond nododd rai gwahaniaethau allweddol. Mae aelodaeth y grŵp hwn wedi cynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sy'n rheoli tir yn uniongyrchol yng Nghymru. Mae aelodaeth is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ehangach ac mae'n ymgorffori grwpiau o fath lobïo. Sicrhaodd Rhys y byddai'r cylch gorchwyl yn cynnwys cyfeiriad at reoli gwahanol safbwyntiau a'r angen am sgyrsiau a safbwyntiau cytbwys.

7. Cododd Gemma Haines, Undeb Amaethwyr Cymru, rai pryderon ynghylch y penderfyniad hwn hefyd, ac awgrymodd fod angen i'r cylch gorchwyl fynd i'r afael â'r rhain. Mae angen i Fforwm Rheoli Tir Cymru barhau i hwyluso'r cyfle i drafod polisïau allweddol.

8. Awgrymodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, y gallai CNC ystyried lleihau nifer cyfarfodydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn hytrach na gohirio'r grŵp (e.e. bob chwarter neu bob dau fis yn lle cyfarfodydd misol). Dywedodd Dennis fod is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o oresgyn y problemau ynghylch ffermwyr tenant a'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Atgoffodd Dennis y grŵp nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bwrw ymlaen ag adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r argymhellion dilynol o 2018. Soniodd Rhys y byddai cyfnod prawf, ac efallai y byddem yn myfyrio ar y newidiadau ymhen tua blwyddyn. Trafododd Rhys yr anawsterau o ran dod o hyd i eitemau a chyflwyniadau ar gyfer agendâu misol is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

9. Nid yw adolygiad CNC o'r fforwm wedi dod i ben eto – mae dadansoddiad o ymatebion arolwg y rhanddeiliaid yn parhau, a bydd unrhyw gamau nesaf yn cael eu cyfleu maes o law.

***AP01 17 Mawrth 2025: Bronwen Martin, CNC, i ddiwygio cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru a dosbarthu'r ddogfen ddrafft i'r grŵp i'w hadolygu.***

## Eitem 4. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025

10. Ymunodd Julie Boswell, CNC, â'r grŵp i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025. Mae hyn yn dilyn cyflwyniad cychwynnol a ddarparwyd ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddwyd Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 (2024) – Crynodeb ym mis Rhagfyr 2024, ac mae'n amlinellu'r cynlluniau ar gyfer adroddiad 2025, yn tynnu sylw at dystiolaeth newydd allweddol am yr hyn sydd wedi newid ers adroddiad 2020, ac yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n dod i'r amlwg o'r dystiolaeth honno. Rhoddodd Julie drosolwg o sylfeini'r adroddiad, gan gynnwys yr ysgogwyr, y pwysau, y sefyllfa, yr effaith a'r ymateb. Yr ysgogwyr newid sydd wedi'u nodi yw newid hinsawdd, rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefydau, newid defnydd tir a môr, gor-ecsbloetiaeth, a llygredd.

11. Mae CNC wedi treulio'r 18 mis diwethaf yn diweddaru'r dystiolaeth a fydd yn cael ei defnyddio yn adroddiad 2025 ar gyfer yr wyth ecosystem eang a'r tri phrif adnodd naturiol, sef aer, dŵr a phridd. Rydym nawr yn y broses o ddefnyddio'r dystiolaeth hon i ysgrifennu'r asesiadau yn erbyn pob un o bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hyn yn caniatáu inni integreiddio'r dystiolaeth ar bwysau cymdeithas a gweithgarwch economaidd ar adnoddau naturiol ac ecosystemau. Byddwn yn symud yn ein blaen yn fuan at yr asesiadau cyffredinol ac yn nodi'r negeseuon a blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol. Dangosodd Julie amserlen a oedd yn amlinellu'r cerrig milltir allweddol, y statws a'r camau nesaf.

12. Soniodd Julie am gynhyrchion arfaethedig adroddiad 2025, gan gynnwys tudalen we, cynnwys gweledol a fideo o negeseuon allweddol. Efallai y bydd rhai crynodebau'n cael eu cynhyrchu hefyd, ac efallai y bydd yn bosibl lawrlwytho'r cynnwys. Rhoddodd Julie drosolwg o rywfaint o'r dystiolaeth, sy'n parhau i gael ei datblygu.

13. Dywedodd Rhys fod y fformat newydd arfaethedig yn ddiddorol ac yn ôl pob golwg y bydd yn llawer mwy rhyngweithiol nag adroddiadau'r gorffennol.

14. Soniodd Dennis ei fod wedi bod mewn digwyddiad yng Nghaerdydd a oedd yn ymwneud â lansio cynllun corfforaethol CNC. Cofiodd Dennis nad oedd sôn am ddiogelwch bwyd, ac mae'n ymddangos nad oes llawer o sylw'n cael ei roi i ddiogelwch bwyd yn yr adroddiad hwn ychwaith. Mae'n hanfodol gan y bydd ein bwyd yn dod i ben. Nododd Julie sylwadau Dennis.

15. Gofynnodd Rhys am y defnydd cyffredinol o'r adroddiad hwn ac a yw sefydliadau eraill yn ei ddefnyddio fel ffynhonnell wybodaeth i lywio eu gwaith. Roedd Julie yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai sefydliadau'n cyfeirio ato yn eu gwaith. Mae CNC yn ei ddefnyddio ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei ddefnyddio wrth ddatblygu ei pholisïau. Fodd bynnag, rydym wedi cael trafferth archwilio sut mae pobl eraill yn defnyddio'r adroddiad.

16. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi mynd trwy'r adroddiad cyntaf gyda chrib mân ac wedi'i ddefnyddio'n eithaf helaeth yn dilyn hynny. Roedd rhai o'r ystadegau'n ddefnyddiol iawn a chyfeiriwyd atynt yn aml yng nghyhoeddiadau NFU Cymru ac mewn gohebiaeth ag aelodau Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Fodd bynnag, roedd yn anodd nodi'r 'llinyn aur' rhwng iteriad cyntaf ac ail iteriad yr adroddiad. Roedd yr ail yn llawer mwy haniaethol a chysyniadol ac felly yn llai defnyddiol. Esboniodd Rachel fod y 'llinyn aur' rhwng rhifynnau'r adroddiad yn wirioneddol bwysig oherwydd y gellid gwneud cymariaethau. O ganlyniad, mae fersiwn hollol newydd neu fformat newydd gyda dadansoddiad neu fethodoleg newydd yn llai defnyddiol. Cadarnhaodd Julie fod y dull wedi aros yr un fath, ond bod y ffordd y mae'n cael ei gyflwyno a'i ddisgrifio wedi newid. Yn ogystal â hyn, nid oedd gennym bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer adroddiad 2016, a'r adroddiad yn 2020 oedd y tro cyntaf i ni asesu cynnydd yn erbyn y math hwn o adroddiad. Mae ein cynllun yn ei gwneud yn gliriach sut y mae'r dystiolaeth wedi'i chasglu gan ddefnyddio 'yr ysgogwyr, y pwysau, y sefyllfa, yr effaith a'r ymateb' ac yn disgrifio beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer pob un o bedwar nod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gobeithio y bydd y fformat hwn yn ein galluogi i'w ddiweddaru'n hawdd pan fydd tystiolaeth newydd yn codi yn y dyfodol.

17. Gofynnodd Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, pryd y bwriedir ei lansio ac a fydd digwyddiad lansio yn cael ei gynnal y gall rhanddeiliaid fod yn rhan ohono. Gofynnodd Fraser hefyd am yr wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiadau Ardal. Trafododd Fraser ddefnyddioldeb fersiynau blaenorol o'r adroddiad, ac awgrymodd ei bod yn bwysig deall sut mae polisïau Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r materion a'r bylchau a amlygwyd yn yr adroddiadau blaenorol a pha gynnydd sydd wedi'i wneud ers hynny. Dywedodd Julie fod rhaid cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025. Mae'n debyg y bydd digwyddiad lansio'n cael ei drefnu rhyw bryd ym mis Ionawr 2026, ac y byddwn yn sicr yn gwahodd ein holl randdeiliaid. O ran diweddariad i'r Datganiadau Ardal, o fewn y triongl cynhyrchu mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru ac wedyn y Datganiadau Ardal, sy'n ymateb i'r Polisi Adnoddau Naturiol. Dywedodd Mary Lewis, CNC, fel rhan o'r broses achos dros newid, fod CNC yn adolygu ein capasiti ac yn lleihau rhai meysydd gwaith. Cytunwyd y byddwn yn lleihau'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar y Datganiadau Ardal i ryw raddau. Rydym yn adolygu'n fewnol y dull yr ydym yn ei fabwysiadu i'w cynhyrchu ac mae'n sgwrs sy'n mynd rhagddi gyda Llywodraeth Cymru.

18. Dywedodd Dennis ei fod wedi mynychu cyfarfod cyffredinol blynyddol Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yr wythnos ddiwethaf a bod cadeiryddion yr holl ranbarthau oll yn anobeithio gyda phopeth sydd wedi'i bentyrru yn erbyn ffermwyr yn ddiweddar, gan gynnwys treth etifeddiaeth, sero net a thynnu cyllid grant yn ôl. Mae'r holl bethau hyn yn risg i ddiogelwch bwyd yn y DU. Rydym yn ddiwydiant sylfaenol hanfodol, ond mae San Steffan yn arddangos gelyniaeth tuag at gymunedau gwledig – mae pryder gwirioneddol yn y diwydiant. Cyfeiriodd Dennis hefyd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chwestiynodd y cynnydd dilynol sydd wedi'i wneud.

19. Gofynnodd Fraser sut mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r adroddiad yn y gorffennol a sut mae'n bwriadu defnyddio'r adroddiad newydd. Ymddengys fod anghysondeb ynghylch y broses ac ansicrwydd ynghylch sut y bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol. Soniodd Julie fod rhai adrannau o Lywodraeth Cymru yn defnyddio'r adroddiad ac wedi cyfeirio ato.

20. Soniodd Rachel am y Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth, a dywedodd ei bod yn parhau i fod yn aneglur iawn sut y bydd y gofynion monitro a gosod targedau yn cael eu hintegreiddio mewn fframwaith cryf. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol wedi'i ddiweddaru nac ychwaith wedi ymgynghori arno. Cwestiynodd Rachel sut y bydd CNC yn integreiddio'r adroddiad â'r gofynion eraill a gyflwynwyd o ganlyniad i'r Bil hwnnw. Cydnabu Julie y cymhlethdodau a dywedodd fod yr adroddiad yn cynnwys asesiad bioamrywiaeth, ac felly efallai y bydd hynny'n rhan o sut y bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r hyn y mae Llywodraeth Cymru eisiau i ni adrodd yn ei erbyn.

21. Cofiodd Rhys am y cyfle posibl i randdeiliaid gymryd rhan mewn sesiynau profi defnyddwyr. Gofynnodd Julie i'r grŵp gysylltu â hi os oeddent â diddordeb mewn cymryd rhan.

***AP02 17 Mawrth: Bronwen Martin i ddosbarthu copi o gyflwyniad Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025.***

***AP03 17 Mawrth: Dylai aelodau gysylltu â Julie Boswell os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o sesiynau profi defnyddwyr yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.***

## Eitem 6. Tipio anghyfreithlon yng Nghymru

22. Ymunodd Neil Harrison, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar dipio anghyfreithlon yng Nghymru. Mae tipio anghyfreithlon yn parhau i fod yn broblem i ffermwyr, rheolwyr tir a choedwigwyr. Rhannodd Neil rai negeseuon allweddol ynghyd â rhai dulliau o fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

23. Y diffiniad cyfreithiol yw 'cael gwared ar wastraff yn anghyfreithlon ar dir nad oes ganddo ganiatâd na thrwydded i'w dderbyn'. Yn fwy ymarferol, gellir ei ddiffinio drwy ddweud bod unrhyw beth mwy na bag du yn tueddu i gael ei ystyried yn dipio anghyfreithlon. Byddai unrhyw beth llai na hynny yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn 'sbwriel'. Gall tipio anghyfreithlon amrywio o un bag du wedi'i ddympio wrth ymyl bin sbwriel cyhoeddus, i ddympio gwastraff masnachol yn anghyfreithlon ar raddfa fawr.

24. Awdurdodau lleol sy'n delio â'r rhan fwyaf o achosion o dipio anghyfreithlon, ac mae dyletswydd arnynt i glirio gwastraff sydd wedi cael ei dipio yn anghyfreithlon oddi ar dir cyhoeddus. Mae gan CNC rai cyfrifoldebau hefyd o ran tipio anghyfreithlon, ond, fel arfer, byddant yn ymyrryd pan fydd yr achos o dipio anghyfreithlon ar raddfa fwy (e.e. dros 20 tunnell o wastraff sy'n gysylltiedig â gweithrediadau gwastraff masnachol, trosedd gwastraff anghyfreithlon neu os yw'n ymwneud â gwastraff peryglus dros drothwyon penodol). Cyfrifoldeb perchennog y tir yw tipio anghyfreithlon ar dir preifat a bydd angen iddynt dalu i gael gwared ar y gwastraff hwnnw mewn ffordd gyfrifol a chyfreithiol. O ran gorfodi yn erbyn achosion o'r fath, bydd rhai awdurdodau lleol yn ymchwilio i ddigwyddiad ar dir preifat, ond nid yw eraill mor rhagweithiol. Gallai hyn fod oherwydd polisi mewnol, neu efallai nad oes ganddynt ddigon o adnoddau i ganolbwyntio ar ddigwyddiadau ar dir preifat.

25. Darparodd Neil rai enghreifftiau ffotograffig o wahanol fathau o dipio anghyfreithlon a welwyd ledled Cymru – cafodd yr holl ddelweddau eu tynnu gan ddefnyddio system FlyMapper dros y tri mis diwethaf.

26. Nododd strategaeth Llywodraeth Cymru bedwar maes allweddol sy'n sbarduno tipio anghyfreithlon, gan gynnwys troseddau domestig, masnachol, cyfundrefnol a phoblogaethau dros dro. Soniodd Neil mai gwastraff o gartrefi yw 70% o'r gwastraff sy'n cael ei dipio yn anghyfreithlon. Os ydych chi'n berchennog tŷ, mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnoch i wirio bod pwy bynnag yr ydych chi'n trosglwyddo'ch gwastraff iddo yn gludwr gwastraff cofrestredig. Yn anffodus, dim ond 60% o'r cyhoedd sy'n deall eu dyletswydd gofal o ran gwastraff. Mae tîm Neil wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth – dyma un o'r ymyriadau gorau i leihau tipio anghyfreithlon yng Nghymru.

27. Rhoddodd Neil rai enghreifftiau o'r mathau mwyaf cyffredin o wastraff sy'n cael eu dympio, gan gynnwys deunydd adeiladu a dymchwel, nwyddau gwyn ac eitemau trydanol, gwastraff masnachol, gwastraff gwyrdd a gwastraff peryglus. Gall amrywiol ffactorau effeithio ar lefelau tipio anghyfreithlon, gan gynnwys gweithgarwch economaidd, costau byw, polisïau a darpariaeth yn ymwneud â gwastraff, a ffactorau tymhorol. Soniodd Neil am y ddamcaniaeth 'ffenestri wedi torri', lle mae ardal lle ceir tipio anghyfreithlon neu fathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn denu mwy o dipio anghyfreithlon. Felly, mae awdurdodau lleol yn rhoi llawer o ffocws ar glirio gwastraff sydd wedi'i dipio yn anghyfreithlon cyn gynted â phosibl. Dylai hyn fod yn wir hefyd yn achos tirfeddianwyr preifat er mwyn atal ardal rhag wynebu mwy o dipio anghyfreithlon. Mae tipio anghyfreithlon yn cael llawer o effaith, gan gynnwys effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

28. Trafododd Neil y cosbau am dipio anghyfreithlon. Mae CNC yn awyddus i fynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus anghyfreithlon sy'n tanseilio busnesau gwastraff cyfreithlon sy'n gwaredu gwastraff yn gyfrifol. Y ddeddfwriaeth a ddefnyddir yn gyffredinol yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd, adrannau 33 a 34. O dan adran 33 (y drosedd o dipio anghyfreithlon), os cewch eich dal yn tipio'n anghyfreithlon, gallwch dderbyn dirwy o hyd at £50,000 a 12 mis o garchar, ond ar gyfer achosion mwy difrifol gallai fod yn ddirwy ddiderfyn a hyd at bum mlynedd o garchar. Yr ail ddarn o ddeddfwriaeth yw adran 34 (troseddau dyletswydd gofal), a ddefnyddir yn aml gan awdurdodau lleol ac CNC. Er enghraifft, os ydych chi wedi trosglwyddo eich gwastraff i rywun nad yw wedi'i gofrestru, gallech chi gael eich cael yn euog o drosedd dyletswydd gofal, a gallai hynny fod yn ddirwy o hyd at £5,000 i ddeiliad tŷ neu ddirwy ddiderfyn i fusnes. Esboniodd Neil, yn anffodus, nad yw'r dirwyon a gyflwynir gan y llysoedd o bosibl yn ddigon i atal pobl rhag troseddu fel y byddem wedi'i obeithio.

29. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno hysbysiad cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon, sy'n gadarnhaol iawn ac yn cael ei ddefnyddio'n llawer ehangach gan awdurdodau lleol. Un o fanteision hysbysiadau cosb benodedig yw eu bod yn ddewis amgen i fynd ag achos trwy broses llys hirfaith. Gellir cyflwyno hysbysiad cosb benodedig ar gyfer tipio anghyfreithlon o rhwng £150 a £400, ac mae'n ffordd gyflymach o ddwyn rhywun i gyfrif. Mae hysbysiad cosb benodedig ar gyfer trosedd dyletswydd gofal yn £300. Mae amryw o ddarnau eraill o ddeddfwriaeth y gall awdurdodau lleol ac CNC eu defnyddio, gan gynnwys atafaelu cerbydau a amheuir i fod yn gysylltiedig â thipio anghyfreithlon, adran 59 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, adran 108 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd, gorchmynion ymddygiad troseddol a hysbysiadau gwarchod y gymuned.

30. Amlinellodd Neil rai o'r ystadegau diweddaraf ynghylch tipio anghyfreithlon. Roedd 42,000 o achosion o dipio anghyfreithlon wedi bod yng Nghymru, a oedd yn gynnydd o

6% ar y flwyddyn flaenorol, ac a oedd yn parhau i fod 20% yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig. Yn fwy cadarnhaol, y llynedd cynhaliwyd 23,000 o ymchwiliadau gan awdurdodau lleol, a arweiniodd at 102 o erlyniadau (dwbl y flwyddyn flaenorol), a chyflwynwyd dros 1,000 o hysbysiadau cosb penodedig.

31. Trafododd Neil yr ystod o brosiectau a mentrau y mae awdurdodau lleol ac CNC yn eu cynnal i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ni gynyddu ein gwaith gorfodi a gweithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu nifer yr erlyniadau. Rydym hefyd yn rhannu canllawiau ac arferion gorau ac yn trefnu hyfforddiant. Rydym wedi trefnu aelodaeth ar gyfer pob awdurdod lleol i gael cyngor arbenigol ar gyfer mynd ag achosion i'r llys, templedi ar gyfer eu gwaith cyfreithiol ac ati. Rydym hefyd wedi prynu offer fel y gallwn roi camerâu ar fenthyciad i awdurdodau lleol ar gyfer gwyliadwriaeth. Rydym hefyd yn darparu cymorth ar eu defnyddio, eu cuddliwio, a gosod arwyddion ar eu cyfer. Rydym yn parhau i ddatblygu ein cymhwysiad FlyMapper ac yn gobeithio gwahodd mwy o dirfeddianwyr preifat a rheolwyr tir i ddefnyddio'r system fel y gallant ddechrau cofnodi data yn fwy cywir. Rydym hefyd yn cynnal nifer o ymgyrchoedd tipio anghyfreithlon bob blwyddyn i godi ymwybyddiaeth ac addysgu pobl am y ddyletswydd gofal o ran gwastraff ar gyfer perchnogion tai a busnesau.

32. Cofiodd Dennis fod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn dweud nad oeddent yn gallu ymladd tanau a oedd yn agos at rai ardaloedd trefol yn Ne Cymru oherwydd bod silindrau nwy wedi'u dympio – roedd yn rhy beryglus. Soniodd Dennis am y newidiadau diweddar y mae CNC wedi'u gwneud parthed gwaredu dip defaid a dywedodd ei fod yn ymddangos yn wrthgynhyrchiol. Yn ogystal â hyn, o 1 Ebrill ymlaen mae'n ofynnol i ffermydd wahanu eu holl wastraff fferm i wahanol gategorïau fel aelwyd – gallai hyn eu hannog i beidio â chael dim ond sgip. Dywedodd Dennis ei bod yn ymddangos yn annheg iawn bod rhaid i dirfeddiannwr neu denant dalu am gael gwared ar wastraff sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon. Roedd Neil yn gwerthfawrogi bod Dennis wedi codi ymwybyddiaeth o rai newidiadau diweddar/arfaethedig. Mae gan newidiadau i bolisi gwastraff yn sicr y potensial i effeithio ar lefelau tipio anghyfreithlon ac mae hyn yn rhywbeth y bydd CNC yn ei fonitro. Mae casgliadau gwastraff ar wahân eisoes wedi'u cyflwyno ar gyfer amrywiaeth eang o fusnesau yng Nghymru. Cydnabu Neil yr annhegwch i ffermwyr sy'n gorfod delio â thipio anghyfreithlon oherwydd bod eu tir yn destun gweithgaredd troseddol. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd hynny'n newid felly mae'n bwysig dod o hyd i ffyrdd eraill y gallwn gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir. Esboniodd Neil fod rhai awdurdodau lleol wedi archwilio a allai tirfeddianwyr fynd â deunydd sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon i'r ganolfan ailgylchu gwastraff cartref leol am gost is neu yn rhad ac am ddim. Mae potensial i dreialu cyfleoedd eraill drwy ddefnyddio'r system FlyMapper – gallai hyn hefyd leihau'r risg o unrhyw dwyll yn digwydd (e.e. cofnodi digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn gywir ar y system hon, y gellid ei defnyddio wedyn fel tocyn i fynd â'r gwastraff hwnnw i'ch safle lleol).

33. Trafododd Hedd Pugh, NFU Cymru, gost tipio anghyfreithlon i ffermwyr a thirfeddianwyr. Mae'n frawychus iawn bod 42,000 o ddigwyddiadau wedi bod yng Nghymru a dim ond 102 o erledigaethau. Dylid gwneud mwy i erlyn y bobl sy'n tipio sbwriel yn anghyfreithlon.

34. Soniodd Gemma Haines, Undeb Amaethwyr Cymru, am brofiad rhai aelodau o'r undeb. Bu cynnydd sylweddol mewn achosion o dipio anghyfreithlon mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol, yn enwedig lle bu toriadau i'r ddarpariaeth o ran safleoedd ailgylchu

a gwaredu gwastraff (e.e. cwtogiad i oriau agor). Mae un gymdeithas porwyr tiroedd comin yn Ne Cymru wedi bod yn destun tipio anghyfreithlon yn gyson bron. Mae'r tir comin yn eithaf agos at safle casglu gwastraff, ac o ganlyniad bu cynnydd sylweddol yn swm y gwastraff cartref sy'n cael ei ddympio ar y tir comin. Mae hyn wedi bod yn rhwystredig iawn oherwydd bod rhaid i'r gymdeithas borwyr dalu'r costau i gael gwared ar y gwastraff hwnnw ac mae'r effeithiau cynyddol yn annheg iawn. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd wedi derbyn adroddiadau gan eu haelodau ynghylch problemau sy'n ymwneud â phobl sy'n byw ar dir comin yn gadael gwastraff gardd mewn bagiau ailgylchu gwyrdd i'r cyngor ei gasglu. Fodd bynnag, mae da byw wedi cael eu gwenwyno drwy fwyta'r bagiau hynny. Dywedodd Gemma fod hwn yn fater difrifol iawn a gofynnodd am gyfarfod ag CNC i'w drafod ymhellach. Cytunodd Neil fod hon yn broblem wirioneddol a dywedodd ei bod yn un y mae CNC wedi ymgyrchu'n rhagweithiol yn ei chylch. Soniodd Neil am brosiect sydd ar ddod lle mae CNC yn gweithio gyda pharcmon tir comin Gelli-gaer a Merthyr. Rydym wedi gwneud rhywfaint o waith cadarnhaol gyda'r parcmon o'r blaen. Gofynnodd Gemma a allai hi drosglwyddo manylion cyswllt Neil i'r gymdeithas borwyr gan y byddent â diddordeb yn y gwaith y mae CNC yn ei wneud mewn mannau eraill, ac y byddent yn sicr yn croesawu unrhyw adnoddau i'w dosbarthu i'r cyhoedd yn yr ardal honno. Cytunodd Neil y gallai Gemma basio ei fanylion cyswllt yn eu blaen.

***AP04 17 Mawrth: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad ar dipio anghyfreithlon ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer Neil Harrison, CNC.***

## Eitem 7. Ymweliad cyfnewid gwybodaeth

35. Ymunodd Chris R. Thomas, CNC, â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf a throsolwg o ymweliad cyfnewid gwybodaeth diweddar ag Iwerddon. Ffocws yr ymweliad oedd gweld sut y gall ffermio cynaliadwy warchod a gwella'r amgylchedd naturiol wrth wella cynhyrchiant a phroffidioldeb ffermydd.

36. Chris yw Uwch-swyddog Amaethyddol Rheoli Tir ar gyfer Prosiect Pedair Afon LIFE. Mae Pedair Afon LIFE yn brosiect a ariennir gan yr UE, Llywodraeth Cymru, CNC a Bannau Brycheiniog. Mae'r prosiect yn edrych ar bedair prif afon mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (Cleddau, Teifi, Tywi ac Wysg) i wella ansawdd dŵr a llwybrau pysgod. Mae hanner y tîm yn canolbwyntio ar waith yn yr afon (e.e. cael gwared ar rwystrau i lwybrau pysgod) ac mae hanner arall y tîm yn canolbwyntio ar reoli tir ac amaethyddiaeth. Dangosodd Chris fap yn nodi lleoliad yr afonydd a'r ardaloedd sy'n rhan o'r prosiect hwn. Mae cyllid y prosiect yn £9.1 miliwn. Trafododd Chris bartneriaid y prosiect, sy'n cynnwys sefydliadau, ffermwyr, tirfeddianwyr, cymunedau lleol a chontractwyr. Nod y prosiect yw gwella ansawdd dŵr, llwybrau pysgod a gwaith rheoli tir. Y dangosydd perfformiad allweddol yw ceisio ailgyflwyno misglod perlog i'r pedair afon hyn. Mae'r fisglen berlog yn ddangosydd rhywogaeth allweddol o statws ansawdd dŵr uchel. Mae hyn yn mynd i fod yn her eithaf anodd, ac nid ydym wedi llwyddo i ddod o hyd i unrhyw boblogaethau hyfyw yn y pedair afon eto, ond rydym yn edrych ar ardaloedd lle gallem eu hailgyflwyno.

37. Soniodd Chris am ychydig o'r gwaith rheoli tir o fewn y prosiect. Mae Coed Cadw wedi darparu 50,000 o goed llydanddail brodorol i'w plannu ar hyd glannau'r afon. Rydym hefyd yn anelu at leihau effaith rhywogaethau estron goresgynnol, ffensio afonydd i greu clustogau mwy, ac ailgyflwyno misglod perlog hefyd. Mae Gelli Aur wedi caffael chwe gorsaf dywydd ar gyfer Prosiect Tywydd Tywi, gyda chyllid ychwanegol o

£40,000 gan Dŵr Cymru. Mae gorsafoedd tywydd wedi'u gosod ar chwe fferm yn nalgylch afon Cleddau ac mae pump arall yn y broses o gael eu gosod ar hyd afon Teifi. Mae'r orsaf dywydd leol yn darparu data ar y safle ar gyflymder y gwynt, tymheredd yr aer, tymheredd y pridd, lleithder y pridd ac ati. Mae hyn yn rhoi rhagolwg lleol pum diwrnod cyfoes i'r ffermwyr, y maent wedyn yn ei ddefnyddio i lywio'r ffordd y maent yn gwneud penderfyniadau. Mae dyddiadau'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi'u gosod yn y gorsafoedd tywydd hefyd fel y gall ffermwyr weld os ydynt y tu mewn neu'r tu allan i'r cyfnod gwaharddedig ar gyfer gwasgaru slyri a gwrtaith.

38. Rydym hefyd yn edrych ar wella llwybrau da byw gan fod da byw yn parhau i gerdded trwy rydau mewn rhai ardaloedd. Rydym wedi ystyried opsiynau megis cwlfertiau a phontydd.

39. Soniodd Chris am rai o'r grwpiau trafod y mae wedi bod yn gweithio gyda nhw, gan gynnwys grwpiau Agriscôp a grwpiau bioffilig. Trefnwyd taith ffermio adfywiol i Iwerddon trwy grŵp Agriscôp i edrych ar ychydig o'r gwaith da sy'n cael ei wneud yno. Disgrifiodd Chris y daith tri diwrnod i Iwerddon gyda 12 ffermwr o Gymru. Dysgodd mynychwyr y daith am eu cyngor, eu harweiniad, a'r ffordd y maent yn profi'r pridd. Cafodd ffermwyr Iwerddon eu hariannu i ymgymryd â gwaith penodol i edrych ar ddulliau cynaliadwy ac adfywiol, ac mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Roedd gan y prosiect gyllid pum mlynedd, sydd bellach wedi dod i ben. Fodd bynnag, mae wedi gwneud i lawer o bobl sylweddoli beth sy'n bosibl, yn enwedig gan fod y ffermwyr wedi cael caniatâd i dreialu pethau penodol megis lleihau'r defnydd o nitrogen, annog meillion i dyfu, ac efallai rhywogaethau mwy traddodiadol. Disgrifiodd Chris rai o'r ymweliadau â ffermydd yn ystod y daith. Y gobaith yw bod y daith wedi helpu ffermwyr Cymru i feddwl am y posibiliadau ac wedi eu galluogi i edrych ar eu systemau eu hunain ac ystyried beth allent ei wneud yn wahanol o bosibl. Mae rhai o ffermwyr Iwerddon â diddordeb mewn ymweld â Chymru. Mae'n bwysig ceisio cadw'r momentwm hwnnw i fynd ac annog ffermwyr o'r un anian i siarad am eu profiadau.

40. Dywedodd Rachel y byddai ganddi ddiddordeb mewn gwybod mwy am y 12 ffermwr gan fod ganddynt wybodaeth a fyddai'n eithaf defnyddiol i'w lledaenu. Efallai y gallent gyfrannu at gyfarfod sirol NFU Cymru yn y dyfodol neu ddigwyddiad rydyn ni'n ei drefnu. Gofynnodd Rachel a allai Chris rannu mwy o wybodaeth. Soniodd Rachel fod llawer o deithiau defnyddiol wedi bod i Iwerddon yn flaenorol, ond atgoffodd y grŵp mai'r gwahaniaeth sylfaenol yw bod y ffermwyr hynny'n gweithredu o fewn fframwaith y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac yn parhau i dderbyn cymorth amaeth-amgylcheddol uniongyrchol. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn mynd i fod yn wahanol iawn yn fuan gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a diddymiad graddol y Cynllun Taliad Sylfaenol, a fydd yn dechrau yn 2026. Felly, nid cymhariaeth debyg am debyg ym mhob agwedd mohoni. Gellir cymharu systemau ffermio yn aml, ac mae'n bosibl y gellir cymharu amodau ffermio, ond mae'r cyd-destun economaidd a'r fframwaith polisi yn wahanol iawn.

41. Gofynnodd Rhys a fyddai Chris yn cynnal gwaith dilynol gyda'r 12 ffermwr i weld a yw'r daith wedi gwneud gwahaniaeth o ran eu dull gweithredu. Dywedodd Chris fod y grwpiau trafod yn mynd rhagddynt ac yn lle iddynt drafod eu profiadau. Rydym hefyd yn gobeithio trefnu rhai digwyddiadau eraill yn y dyfodol.

42. Dywedodd Jon Goldsworthy, CNC, fod Prosiect Arddangos Teifi yn edrych yn ofalus iawn ar Brosiect Pedair Afon LIFE ac eisiau dysgu rhywfaint ohono. Ar hyn o bryd,

rydym yn llunio cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar ddalgylch afon Teifi, ac rydym wedi bod yn siarad â Chris a'r grwpiau trafod ynglŷn â sut y gallwn eu cynnwys yn yr hyn rydym yn ei gynllunio yn y dalgylch. Rydym hefyd yn siarad â'r WWF ynglŷn â phrosiect yn y DU y maent wedi'i gynnal yn edrych ar y cyfnod lle mae ffermwyr yn profi lleihad yn eu cnwd wrth iddynt newid i ddull adfywiol cyn i bethau wella eto. Rydym hefyd yn edrych ar y 'theori newid' a sut y gellid ei hymgorffori yn y prosiect arddangos.

***AP05 17 Mawrth: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu copi o'r cyflwyniad ar yr ymweliad cyfnewid gwybodaeth ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer Chris Thomas, CNC.***

## Eitem 7. Diweddariadau CNC

43. Cyn y cyfarfod, dosbarthwyd papur diweddaru Fforwm Rheoli Tir Cymru. Anogir aelodau i adolygu'r ddogfen ymlaen llaw a dod i'r cyfarfod gyda chwestiynau wedi'u paratoi. Cydnabu Rhys fod llawer o amser yn cael ei dreulio yn cynhyrchu papur diweddaru Fforwm Rheoli Tir Cymru a diolchodd i'r rhai sydd wedi cyfrannu.

44. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch cynnwys y papur diweddaru ysgrifenedig.

## Eitem 8. Diweddariadau gan Undeb Amaethwyr Cymru / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad / Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru / Llywodraeth Cymru

45. **NFU Cymru:** Soniodd Rachel Lewis-Davies eu bod wedi bod yn brysur iawn gyda'r gwaith parhaus parthed cam nesaf y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Yn y cyd-destun ehangach, mae pryderon ynghylch y newidiadau i dreth etifeddiaeth a phethau eraill. Mae'r diwydiant o dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd.

    Nododd Rachel y drafodaeth gynharach ynghylch cylch gorchwyl diwygiedig Fforwm Rheoli Tir Cymru ac awgrymodd yr angen i ddod o hyd i ffordd well o rannu gwybodaeth rhwng CNC a rhanddeiliaid. Soniodd Rachel am y newidiadau i'r broses o gael gwared ar dip defaid fel enghraifft, a dywedodd y gellid bod wedi ymdrin â'r mater mewn ffordd llawer gwell o safbwynt CNC. Ni chafwyd unrhyw ymgynghoriad a daeth y penderfyniad yn annisgwyl, ond mae'n mynd i effeithio'n ddwys ar y sector defaid yng Nghymru. O safbwynt NFU Cymru, roedd y cyfathrebu'n sicr yn annigonol mewn perthynas â'r penderfyniad penodol hwn.

    Soniodd Hedd Pugh am y ci racŵn a ddihangodd ger y Bala a chofiodd fod CNC yn bryderus iawn. Gofynnodd Hedd a oedd unrhyw wybodaeth bellach am hynny. Mae aelodau NFU Cymru yn yr ardal yn dechrau pryderu bod rhywogaethau na ddylent fod yng nghefn gwlad yn dianc. Dywedodd Huwel Manley y byddai'n cysylltu â'r tîm amgylchedd lleol ac yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod. Yn y gorffennol, pan mae cŵn racŵn wedi bod yn mynd ar goll, gall gymryd peth amser cyn iddynt gael eu dal yn y pen draw.

***AP06 17 Mawrth: Huwel Manley, CNC, i geisio diweddariad ynghylch y ci racŵn sydd wedi dianc yng Ngogledd Cymru.***

46. **Undeb Amaethwyr Cymru:** Cytunodd Gemma Haines â'r sylwadau ynghylch y newidiadau i'r drwydded dip defaid. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn siomedig nad oedd unrhyw ymgynghoriad wedi bod â'r diwydiant ymlaen llaw cyn gwneud y cyhoeddiad hwnnw. Anfonodd llywydd Undeb Amaethwyr Cymru lythyr at Clare Pillman ym mis Chwefror, ond nid oes ymateb wedi dod i law eto. Fel grŵp diwydiant a rhanddeiliaid, dylem fod yn cael y sgyrsiau hyn gan fod canlyniadau difrifol o ran lles. Byddem yn gwerthfawrogi nad oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau pellach yn cael eu gwneud heb ymgynghoriad yn y dyfodol. Roedd Michelle Griffiths, CNC, yn ymwybodol bod ymateb wedi'i ddarparu ond roedd angen iddi wirio p'un a oedd ar gyfer Undeb Amaethwyr Cymru yntau NFU Cymru.

***AP07 17 Mawrth: Michelle Griffiths, CNC, i gadarnhau a ddarparwyd yr ymateb ynghylch y newidiadau i waredu dip defaid i Undeb Amaethwyr Cymru yntau NFU Cymru.***

Dywedodd Gemma fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi croesawu'r ymgysylltiad diweddar ag arweinwyr tîm rheoli llygredd amaethyddol CNC. Rydym wedi trafod rhai pryderon ac achosion gyda nhw ac mae'r trafodaethau rydym wedi'u cael wedi bod yn fuddiol iawn.

Ar gyfer y dyfodol, yn amlwg, mae gennym adroddiad adolygu rheoli llygredd amaethyddol, sydd ar fin cael ei gyhoeddi. Mae Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn enwedig yn nhrafodaethau'r ford gron. Mae lles anifeiliaid a risg clefydau hefyd yn parhau i fod yn bryder, gyda thrafodaethau parhaus yn mynd rhagddynt ynghylch ffliw adar, y tafod glas a chlwy'r traed a'r genau yn Ewrop.

47. **CFfI Cymru:** Cytunodd Angharad Davies â sylwadau a wnaed gan Rachel a Gemma ynghylch y pryderon sy'n wynebu'r diwydiant amaethyddol ar hyn o bryd. Mae CFfI Cymru hefyd mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae pryderon ynghylch y newidiadau i waredu dip defaid wedi cael eu codi gan aelodau CFfI Cymru. Cynigiodd Angharad gymorth drwy rannu cyfathrebiadau ynghylch tipio anghyfreithlon gyda'u haelodau.

48. **Confor:** Soniodd Elaine Heckley fod Confor hefyd yn gweithio ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yn mynychu cyfarfodydd y Ford Gron Weinidogol a chyfarfodydd Grŵp y Swyddogion ac yn rhan o'r Panel Atafaelu Carbon. Mae Naomi Matheson, Llywodraeth Cymru, hefyd wedi sefydlu grŵp newydd o'r enw Grŵp Cyflawni Rhanddeiliaid Coed a Gwrychoedd. Mae'r grŵp hwnnw'n dechrau gyda'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac yn edrych ar y coed a'r gwrychoedd, ond y syniad yw parhau wedi hynny ac edrych ar y posibilrwydd o blannu coed ar raddfa Cymru gyfan. Mae hwn yn gam cadarnhaol ac mae Confor yn cefnogi'r dull hwn o fod yn atebol am gyflawni targedau plannu yng Nghymru.

Soniodd Elaine am faint y coed a gafodd eu chwythu i lawr gan y gwynt y gaeaf hwn, ar yr ystâd gyhoeddus ac ystadau preifat. Mae hwn yn fater y mae angen i ni ddelio ag ef yn gyflym. Roedd Elaine eisiau diolch yn ffurfiol i CNC am eu hymateb i'r coed a gwympwyd gan y gwyntoedd cryf yn dilyn Storm Darragh, yn enwedig mewn perthynas â thrwyddedau torri coed. Roedd yn glir ac yn ddefnyddiol i'r sector ac yn ein galluogi i ddelio ag achosion o goed yn cael eu cwympo gan y gwynt yn gyflym. Os na chaiff coed sydd wedi'u chwythu i lawr gan y gwynt eu trin yn brydlon, yna mae'n cynyddu'r

risg o blâu a chlefydau, yn enwedig i sbriws a sbriws Sitca, sef y prif gnwd sydd wedi cwympo yng Nghymru.

49. **Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad:** Nid oedd yn bosibl cael diweddariad gan fod rhaid i Fraser McAuley adael y cyfarfod.

50. **Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru:** Dywedodd Dennis Matheson fod cyfran helaeth o'r gwaith presennol yn ymwneud â gweld sut y bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gweithio mewn gwirionedd i ffermwyr tenant.

    Soniodd Dennis am y gwaith sy'n mynd rhagddo i geisio annog Cyngor Sir Powys i beidio â gwerthu eu ffermydd. Mae'r cyngor yn treialu dull drwy rannu'r ffermydd yn lleiniau bach ar gyfer tyfu llysiau. Mae'r cyntaf yn 38 erw gyda phum erw yr un wedi'u dyrannu i dri thyddynwr llysiau. Mae'n debyg y bydd gweddill y tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion plannu â choed ac y bydd y ffermdy yn cael ei werthu. Mae hwn yn brosiect pum mlynedd a fydd, os yw'n gweithio i'r gwahanol dyddynwyr, yn dod yn brydles 90 mlynedd. Mae Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru yn ceisio eu perswadio i aros i weld a yw hyn yn gweithio cyn iddynt ei gyflwyno yn ehangach. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu colli tenantiaethau hyfyw i'r sector tenantiaethau. Esboniodd Dennis effeithiau canlyniadol y newidiadau i'r gyllideb; mae landlordiaid bellach yn atal tir rhag ei osod. Felly, mae ffermydd cyngor sir yn bwysicach fyth.

    Mae Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru yn gwrthwynebu creu'r Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Mae'r cyngor sir hefyd yn gyfan gwbl yn ei erbyn, ynghyd â phobl leol a'n Haelod Seneddol lleol. Mae gennym ni nawr hefyd gynnig ar gyfer parc ynni enfawr ar ben deheuol y Parc Cenedlaethol arfaethedig hwn, gyda 21 o dyrbinau, pob un yn 230 metr o uchder o fewn llinell grid sy'n mynd tua'r dwyrain. Os caiff y Parc Cenedlaethol ei greu, yna mae'n debygol y byddai'n rhwystro datblygiad y fferm wynt - mae hyn yn ymddangos fel sefyllfa 'yr wy ynteu'r iâr'.

51. **Llywodraeth Cymru:** Soniodd Andrew Chambers fod adroddiad adolygu pedair blynedd ar y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn mynd rhagddo a gobeithio y bydd yr adroddiad wedi'i gyhoeddi erbyn diwedd y mis.

52. Gofynnodd Gemma am y data cydymffurfio y mae tîm y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol wedi'i gasglu a phryd y darperir y diweddariad nesaf. Soniodd Michelle mai dyma flwyddyn lawn gyntaf gweithgareddau rheoleiddio'r tîm. Yn ystod y cyfnod hwnnw, rydym wedi bod yn dod â diweddariadau rheolaidd i law is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ac rydym nawr yn llunio'r adroddiad terfynol o'r flwyddyn gyntaf gychwynnol honno. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, byddai'n well cymryd y safbwynt blynyddol hwnnw a chynnig bod adroddiad blynyddol yn cael ei rannu â rhanddeiliaid mewn sesiwn â ffocws wedi'i gydgrynhoi'n gryf ar ôl iddo gael ei lunio ac yna ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Eitem 9. Unrhyw faterion eraill

53. Cyhoeddodd Rhys fod Tim Kirk yn ymddeol o Fforwm Rheoli Tir Cymru. Mae Tim wedi bod yn aelod gwerthfawr ac rydym yn drist ei weld yn mynd. Diolchodd Rhys i Tim am ei ymroddiad a'i gyfraniadau dros y blynyddoedd. Dywedodd Tim ei fod yn edifar ei fod yn gadael a'i fod wedi bod yn aelod o'r grŵp hwn a'i ddalwyr ers oddeutu 18 mlynedd. Mae hi wedi bod yn bwysig iawn erioed bod y byd coedwigaeth yn deall beth arall sy'n digwydd yn y byd gwledig, ac mae'r pwyllgor hwn yn ardderchog am wneud hynny ac

wedi rhoi'r gallu inni gynnig ein dylanwad. Diolchodd Tim i'r grŵp a nododd y bydd yn cadw mewn cysylltiad ag Elaine. Dymunodd Rhys yn dda i Tim ar gyfer y dyfodol.

54. Mae'n debygol y bydd cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2025 (dyddiad i'w gadarnhau).

55. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.

## Cau'r cyfarfod